

Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting*

Cynhaliwyd y cyfarfod ar fferm Brynhyfryd, Llansawel am **19:30 ar y 24ain o Fehefin 2021.**
The meeting was held on Brynhyfryd Farm, Llansawel at 19:30 on the 24th of June 2021.

Yn bresennol / *Present:*

Cynghorwyr / *Councillors:* Rhys George (Cadeirydd / *Chair*), Rhys Green (Is-gadeirydd / *Vice chair*), Kevin Davies, Meurig Griffiths, Pat Racher, Sion Williams & Elsbeth Jenkins.

Clerc / *Clerk:* Angharad Medi Lewis

1.	<u>Croeso / Welcome</u> Croesawodd y Cadeirydd newydd, Rhys George, bawb i'r cyfarfod misol. <i>The new Chair, Rhys George, welcomed everyone to the monthly meeting.</i>
2.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cyng. / Cllr Lynne Jones Cyng. Sir / County Cllr: Eirwyn Williams
3.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Dim / <i>None.</i>
4.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 27ain o Fai 2021</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 27th of May 2021</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Pat Racher ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Rhys Green. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Pat Racher and seconded by Cllr Rhys Green.</i>
5.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Mae'r mater hwn mewn llaw. <i>Tancoed bridge, Esgairdawe Road – This issue is in hand.</i> ii. Gwefan – Dim byd i'w adrodd y tro hwn. <i>Website – Nothing to report this time.</i> iii. Hen adeilad yr hers – Cytunodd y Cynghorwyr y byddai drws dur yn fwy addas ar gyfer yr adeilad. Oherwydd cynnydd yng gostau deunyddiau bydd y Cyng. Meurig Griffiths yn gofyn i G. Davies am ddyfynbris diweddaraf ar gyfer drws dur, ffrâm, cloadwy a bydd yn dweud wrtho am ddechrau'r gwaith cyn gynted â phosib. <i>The old Hearse building – The Councillors agreed that a steel door would be more suitable for the building. Due to an increase in costs for materials Cllr Meurig Griffiths will ask G. Davies for an up-to-date quote for a steel, framed, lockable door and will tell him to start the work as soon as possible.</i>

	iv. Llifogydd – Dim byd pellach i'w adrodd. Cytunwyd i ddileu'r pwynt hwn o'r Agenda am y tro. <i>Floods – Nothing further to report. It was agreed to remove this point from the Agenda for the time being.</i> v. Prosiect Llwybr Troed – Nid yw'r Clerc wedi cael unrhyw ymateb gan y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus i weld os allant ein helpu i symud ymlaen gyda'r prosiect. Nodwyd bod y Cyng. Eirwyn Williams yn mynd i chwilio am berson uniongyrchol yn yr adran. Soniodd y Clerc bod Un Llais Cymru wedi penodi Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Bydd y Clerc yn chwilio am manylion cyswllt y Swyddog, Rachel Carter, a'i cysylltu i weld os gall nhw helpu a hefyd Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin a cynhyrchodd y proffiliau bywyd gwyllt. <i>Public Footpath Project – The Clerk has not received any response from the Public Rights of Way Officer to see if they can help us move forward with the project. It was noted that Cllr Eirwyn Williams is going to try and find a direct person in the department for the Clerk to contact. The Clerk mentioned that One Voice Wales had recently appointed a Local Places for Nature Officer. The Clerk will look for the contact details of the Officer, Rachel Carter, and contact her to see if they can help and the Carmarthenshire Nature Partnership who produced the wildlife profiles.</i> vi. Sesiynau Hyfforddi – Os hoffai unrhyw un fynychu un o sesiynau hyfforddi Un Llais Cymru ym mis Gorffennaf i gysylltu â'r Clerc. Mae'r Cynghorydd Pat Racher yn mynychu'r Cod Ymddygiad – sesiwn Modiwl 9 ar y 30ain o Fehefin. <i>Training sessions – If anyone would like to attend one of the One Voice Wales training sessions in July to please contact the Clerk. Cllr Pat Racher is attending the Code of Conduct – Module 9 session on the 30th of June.</i>
S	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Dim gwybodaeth i'w hadrodd. <i>No information to report.</i>
7.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u> i. Clwb Bach ardal Pumsaint / Crugybar – Cais gan Helen Lewis am arian i helpu gyda'r gost o drefnu digwyddiadau i blant yr ardal dros yr haf. <i>Clwb Bach Pumsaint / Crugybar area – Request from Helen Lewis for funding to help with the cost of organising events for the children of the area over the summer.</i> ii. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin – 6.30yh ar y 7fed o Orffennaf. <i>Carmarthenshire Area Committee Meeting – 6.30pm on the 7th of July.</i>

	iii. Calonnau Cymru – Adroddodd y Clerc bod y cabinet newydd ar y ffordd. Bydd y Cyng. Meurig Griffiths yn gofyn i G. Davies i ffitio'r cabinet. Welsh Hearts – <i>The Clerk reported that the new cabinet is on its way. Cllr. Meurig Griffiths to ask G. Davies to fit the cabinet.</i>
8.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> PL/02070 - Single story side and rear extension - Warren Cottage, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JB – Dim gwrthwynebiad / <i>No objection.</i> <u>Ymgynghoriad Tai / Housing Consultation</u> Nodwyd bod ymgynghoriad tai yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Cytunwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn tynnu sylw at eu pryderon ac yn nodi bod Cyngor Cymuned Llansawel yn cefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi fforddiadwy parhaol i bobl leol yn yr ardal wledig hon ond gan nodi bod llai o eiddo gwledig a phentrefi bach bob blwyddyn, oherwydd pan fyddant yn newid dwylo, mae'r perchnogion newydd yn aml yn ymestyn eu tai, sy'n ychwanegu gwerth ond sy'n gallu gosod eiddo y tu hwnt i gyrraedd prynwyr lleol. Mae llai o eiddo i'w rhentu'n breifat hefyd oherwydd y refeniw uwch sydd i'w gael o renti gwyliau. Mae'r cynghorwyr cymuned o'r meddwl y dylai tai cymdeithasol newydd mewn ardaloedd gwledig fod ar safleoedd ar gyrion mewnlenwi neu anheddu bach ac y dylent fod mor agos at ddi-garbon â phosibl o ran adeiladu a defnyddio. Yn ogystal, mae safleoedd bach yn rhoi cyfle i gwmnïau adeiladu lleol dendro am y gwaith. <i>It was noted that there is currently a housing consultation taking place. It was agreed that the Community Council will highlight their concerns and note that Llansawel Community Council supports the construction of permanently affordable homes for local people in this rural area but noting that each year there are fewer small rural and village properties, because when they change hands, the new owners often extend, which adds value but can place properties beyond the reach of local buyers.</i> <i>There are also fewer properties to rent privately because of the higher revenues to be obtained from holiday rentals.</i> <i>Community councillors think that new social housing in rural areas should be on small infill or settlement-edge sites and should be as near zero-carbon as possible in construction and use. In addition, small sites give local building firms the opportunity to tender for the work.</i>

9. i. ii.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £5,263.59 ar 30/04/2021. <i>Bank Account balance - £5,263.59 as of 30/04/2021.</i> <u>Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments</u> • 000793 – Helen Lewis – Clwb Bach - £200.00 – Chair’s allowance to cover this payment. • 000794 - Angharad Lewis – Clerk’s salary for June 2021 - £200.80 (No Tax or NI to pay this month). <u>Cyfrifon / Archwiliad Blynnyddol</u> – Cymeradwywyd y cyfrifon blynnyddol gan y Cynghorwyr ac maent bellach yn barod i fynd at yr Archwilydd Mewnol. <u>Annual Accounts / Audit</u> – <i>The annual accounts were approved by the Councillors and are now ready to go to the Internal Auditor.</i>
10.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Dim / <i>None.</i>
11.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> - <u>Lleoedd Lleol ar gyfer Natur</u> – Cytunwyd y dylem wneud cais am ardd Ffrwythau a Pherlysiau i'r pentref a'i osod wrth ymyl y fainc ger Capel Shiloh. - <u>Local Places for Nature</u> – <i>It was agreed that we should apply for a Fruit and Herb Garden for the village, to be placed next to the bench near Shiloh Chapel.</i> - <u>Hyfforddiant CPR</u> – Awgrymwyd y gallem ddarparu fideo hyfforddi CPR ar wefan y Cyngor Cymuned. Mae'n bosibl y gallai'r Cyng. Rhys Green ddarparu fideo i ni yn hytrach na thalu neu danysgrifio gyda chwmni arall. <u>CPR training</u> – <i>it was suggested that we could provide a CPR training video on the Community Council Website. Cllr Rhys Green could possibly provide a video for us rather than pay or subscribe with another company.</i> - <u>Ymosodiad gan gi</u> – Codwyd pryderon am gi rhydd yn rhedeg o amgylch y pentref. Nid yw'n ymddangos bod neb yn gwybod pwy sy'n berchen ar y ci ac mae eisoes wedi ymosod ar gerddwr ci yn y pentref. Bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi gwybod i'r Warden Cŵn am y digwyddiad. Bydd y Cyng. Elsbeth Jenkins yn gofyn am ddisgrifiad o'r ci cyn i ni roi gwybod amdano. <u>Dog attack</u> – <i>Concerns were raised about a loose dog running around the village. Nobody seems to know who owns the dog and it has already attacked a dog walker in the village. The Community Council will report the incident to the Dog Warden. Cllr Elsbeth Jenkins will ask for a description of the dog before we report it.</i> - <u>Materion parcio</u> – Codwyd pryderon ynghylch parcio peryglus mewn rhai rhannau o'r pentref, yn enwedig ar droadau a blocio palmentydd. Cytunwyd i godi'r materion hyn gyda'r Heddlu / SCCH lleol. <u>Parking issues</u> – <i>Concerns were raised about dangerous parking in some parts of the village, especially on bends and blocking pavements. It was agreed to raise these issues with the local Police / PCSO.</i>

	- Coeden Onnen – Nodwyd bod angen i ni roi gwybod i'r Cyng. Eirwyn Williams am y goeden. Nid yw'r goeden wedi'i symud eto. <i>Ash Tree – It was noted that we need to inform Cllr Eirwyn Williams about the tree. The tree has yet to be moved.</i>
12.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> 22ain o Orffennaf 2021 am 20:00 ar fferm Brynhyfryd neu Zoom (i'w gadarnhau). <i>22nd of July 2021 at 20:00 on Brynhyfryd Farm or Zoom (to be confirmed).</i>
Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20:55. <i>With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 20:55.</i>	

Arwyddwyd / Signed **Dyddiad / Date**